

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD 18 Mawrth 2019	
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD 20 Mawrth 2019	
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.27 Mawrth 2019	

Y Cyngorydd William Gareth Roberts Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

PWNC: Cynyddu Tâl Wythnosol am becyn sylfaenol Teleofal

PENDERFYNIAD –

Cymeradwyaeth i gynyddu'r tâl wythnosol am becyn sylfaenol Teleofal o £3.30 i £4.50 yr wythnos o Ebrill 2019 ymlaen er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar sail cost niwtral

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Gweler yr adroddiad swyddog atodedig

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU


Din

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cyngorydd William Gareth Roberts Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Rhion Glyn, Uwch Reolwr Busnes
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:	18-03-2019
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

Pwnc : Cynyddu Tâl Wythnosol am becyn sylfaenol Teleofal

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad : Cymeradwyaeth i gynyddu'r tâl wythnosol am becyn sylfaenol Teleofal o £3.30 i £4.50 yr wythnos o Ebrill 2019 ymlaen er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar sail cost niwtral

Rheswm a chyfiawnhad dros yr angen am y Penderfyniad :

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ym Mis Ionawr 2017 penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo newidiadau i Bolisi Codi Tâl am Wasanaethau Gofal Oedolion Cyngor Gwynedd. Roedd un o'r newidiadau hyn yn caniatáu i'r Cyngor godi tâl ar bawb sydd yn derbyn pecyn sylfaenol Teleofal.

Mae'r tâl am becyn sylfaenol ar hyn o bryd yn £3.30 yr wythnos ac nid oes unrhyw newid wedi bod i'r swm hwnnw ers 2013. Noder mai oddeutu 29% o unigolion sy'n derbyn pecyn sylfaenol Teleofal sy'n talu'r swm wythnosol hwn ar hyn o bryd gyda'r gweddill yn derbyn y gwasanaeth yn ddigost.

Fel rhan o'r wybodaeth gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet yn Ionawr 2017, nodwyd fod yr Adran yng nghanol adolygu'r ffi wythnosol ar gyfer y pecyn sylfaenol. Ar sail y wybodaeth ar y pryd amlygwyd y tebygolrwydd y bydda'r ffi yn codi o £3.30 i rhwng £3.80 a £4.00 yr wythnos o Ebrill 2017 ymlaen.

Yn hytrach na chynyddu'r ffi fel y nodwyd yn Ionawr 2017 a gweithredu ar benderfyniad y Cabinet o Ebrill 2017 ymlaen, penderfynwyd bod angen cymryd cam yn ôl yn gyntaf ac adolygu'n llawn y trefniadau oedd mewn lle. Casglwyd

nad oedd y trefniadau'n addas i bwrpas, a bod angen ail strwythuro'r trefniadau gweithredol gan hefyd fuddsoddi mewn swyddi ychwanegol os am gynnal gwasanaeth cynaliadwy sydd o safon i'r dyfodol.

Un o'r prif ffyrdd o fesur perfformiad y gwasanaeth hwn yw'r nifer dyddiau mae'n cymryd i osod offer o'r newydd, a'r nifer dyddiau mae'n cymryd i ymateb i offer diffygiol sydd mewn lle yn barod. Mae peidio gallu ymateb yn brydlon i ddiffygion yn creu risg amlwg i bobl sy'n ddibynol ar y gwasanaeth, ac wedyn gall oedi gosod offer o'r newydd arwain at sefyllfaoedd ble nad yw pobl yn gallu dychwelyd yn ôl i'w cartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Yn Ionawr 2018 ymgeisiwyd i fesur y cyfartaledd amser oedd yn cymryd i osod offer o'r newydd ac ymateb i offer diffygiol. Ar y pryd amcangyfrifwyd fod cwsmeriaid yn gorfod disgwyl cyfartaledd o 54 diwrnod.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf felly mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi gweithio trwy broses o ail strwythuro trefniadau gweithredol a rheolaethol y gwasanaeth Teleofal gan fuddsoddi hefyd mewn mwy o swyddi rheng flaen. Mae'r newidiadau wedi bod yn llwyddiannus ac un enghraifft amlwg o hynny yw'r gostyngiad sylweddol sydd wedi bod yn y cyfartaledd amser mae'n cymryd i osod offer o'r newydd ac ymateb i offer diffygiol. Mae'r cyfartaledd amser disgwyl i gwsmeriaid wedi disgyn o 54 diwrnod i 4.5 diwrnod erbyn hyn.

Gyda'r gwaith yma bellach wedi ei gwblhau rydym erbyn hyn mewn llawer gwell sefyllfa i bwysu a mesur yr hyn gellir ei ystyried yn dâl rhesymol a theg i'w dalu, ond sydd hefyd yn cyfarch yr angen i'r Cyngor dalu am gostau cynnal y gwasanaeth.

Bydd codi'r tâl wythnosol i £4.50 yn golygu y byddai'r Cyngor gyda'r gallu i gynnal gwasanaeth o safon i'r dyfodol ac na fyddai unrhyw risgiau ynghlwm o ran toriadau i'r gwasanaeth gwerthfawr hwn. Trwy ddefnyddio'r tâl i gynnal y gwasanaeth Teleofal ar sail cost niwtral bydd hyn yn arbed yr angen i'r Cyngor ystyried torri neu wneud i ffwrdd â'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, neu amharu ar wasanaethau eraill mae'r Cyngor yn eu darparu. Yn ogystal felly â chynnal y gwasanaeth o ddydd i ddydd, bydd codi'r tâl wythnosol safonol yn galluogi'r gwasanaeth i fuddsoddi mewn technoleg fodern, gan sicrhau fod yr offer yr ydym yn ei gynnig i drigolion y Sir o'r safon uchaf posib.

Er bod gofyn i bawb sydd yn derbyn y gwasanaeth dalu'r tâl safonol wythnosol, dylid egluro'r sefyllfaoedd a'r eithriadau canlynol.

- Bydd gofyn i bawb sydd yn derbyn Gwasanaethau Dibreswyl (e.e. Gofal Cartref, Taliadau Uniongyrchol) dalu'n ychwanegol am eu gwasanaeth Teleofal. Fodd bynnag, os bydd yr unigolyn yn gofyn am brawf modd er mwyn pennu faint fydd yn rhaid iddynt dalu am eu gwasanaeth dibreswyl, fe fydd y tâl am y Gwasanaeth Teleofal yn cael ei ystyried wedyn fel gwariant hanfodol. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw wariant ar Deleofal yn cael ei ychwanegu at y swm wythnosol o arian sydd yn cael ei ganiatáu i'w gadw cyn i'r unigolyn orfod dechrau talu am ofal Dibreswyl.

Gall hyn olygu fod yr unigolyn wedyn yn cyfrannu llai am eu gofal Dibreswyl.

- Os yw'r unigolyn yn barod wedi derbyn prawf modd a'r canlyniad yn golygu nad oes angen iddynt dalu am eu gwasanaethau, fel rhan o'r penderfyniad hwn rydym yn argymhell na fyddai'n addas chwaith i godi tâl arnynt am y gwasanaeth Teleofal. Wedi dweud hyn, os yw canlyniad prawf modd yr unigolyn yn newid i'r dyfodol gallai fod yn ofynnol iddynt wedyn fod yn talu am y gwasanaeth Teleofal.

Rhwng y 12fed o Dachwedd a'r 21ain o Ragfyr 2018 anfonwyd llythyr a phhecyn gwybodaeth at bawb oedd yn derbyn Pecyn Sylfaenol Teleofal. Eglurwyd ein bod fel Cyngor erbyn hyn mewn sefyllfa i weithredu ar benderfyniad y Cabinet yn Ionawr 2017 a'n bod felly yn cysylltu er mwyn casglu eu barn ar gynyddu'r swm wythnosol. Nodwyd yn y llythyr ein bod yn ystyried cynyddu'r swm i hyd at £4.50 yr wythnos.

Anfonwyd llythyr a phhecyn gwybodaeth at 1695 o drigolion a chafwyd cyfanswm o 361 o ymatebion. Roedd yn bosib i bobl gysylltu â rhannu eu sylwadau dros y ffon neu lenwi taflen a'i anfon yn ôl trwy'r post.

Gyda chynifer o ymatebion, rydym o'r farn fod y casglu barn sydd wedi digwydd yn gynrychioladol o'r bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth. O'r 361 roedd 183 o'r ymatebion a gafwyd o natur positif megis nodi pa mor werthfawr oedd y gwasanaeth iddynt, neu nodi eu bod yn hapus i dalu'r swm dan sylw. Mewn cymhariaeth wedyn, cafwyd cyfanswm o 109 o sylwadau negyddol gyda 66 o'r sylwadau rheini yn nodi fod y swm o £4.50 yr wythnos yn ddrud neu'n ormod o gynnydd. Roedd rhai o'r farn hefyd na ddylid codi dim am y gwasanaeth. Cysylltodd 62 o drigolion er mwyn gadael i ni wybod nad ydynt wir yn defnyddio'r gwasanaeth neu ddim ei angen mwyach. Mae tri unigolyn wedi gwneud cais am asesiad ariannol a phedwar yn disgwyl i glywed beth fydd yr union benderfyniad ar y swm wythnosol cyn dod i unrhyw benderfyniad i'r dyfodol.

Mae'n amlwg o'r casglu barn sydd wedi digwydd fod nifer o drigolion yn gweld fod y swm arfaethedig o £4.50 yn rhesymol, ond ar yr un pryd mae nifer o unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn anghytuno. Er bod gwahaniaeth barn amlwg yn bodoli credwn y dylid cynyddu'r swm i £4.50 ond gan sicrhau fod cefnogaeth addas mewn lle i drigolion sy'n bryderus am y newid.

Rydym o'r farn fod y sefyllfaoedd a'r eithriadau sydd wedi eu hegluro uchod yn lliniaru effaith ar ein trigolion fwyaf bregus. Ond o ran yr unigolion hynny sy'n bryderus am y cynnydd ac sydd ddim yn derbyn gwasanaethau di breswyl, a ddim felly'n gymwys am brawf modd, byddwn yn edrych i weld beth fyddai'r ffordd orau iddynt gael cefnogaeth i drafod ac ystyried eu sefyllfaoedd.

Yn dilyn gweithredu'r penderfyniad hwn bydd yr Adran yn adolygu costau rhedeg y gwasanaeth yn flynyddol, gan ychwanegu chwyddiant blynyddol i'r swm o £4.50 os y canfyddir fod angen hynny er mwyn parhau i gynnal y gwasanaeth ar sail cost niwtral.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :

Dim yn berthnasol

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Gweler uchod

Prif Swyddog Cyllid –

Rwy'n fodlon fod adolygiad priodol wedi ei wneud ac rwy'n cefnogi'r ffioedd a argymhellir yma ar gyfer 2019/20, gan nodi fod y cynnydd sylweddol y tro yma'n rhesymol ar ôl i'r pris aros heb newid am rai blynyddoedd. O ganlyniad, mae'n rhesymol i amcangyfrif bydd yr incwm o'r ffioedd arfaethedig yn cyfarch y targed incwm perthnasol yng nghyllideb y gwasanaeth Teleofal yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Swyddog Monitro –

Mae'r adroddiad yn gosod rhesymeg manwl ynglyn a'r cynnydd yn y ffi gyfredol. Mae'r amcan o ddod a'r lefel i fyny at gost darpariaeth yn un briodol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb

Aelod/au Lleol –

Dim yn berthnasol

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

I Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cymeradwyaeth i gynyddu'r tal wythnosol am becyn sylfaenol Teleofal o £3.30 i £4.50 yr wythnos o Ebrill 2019 ymlaen er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar sail cost niwtral.

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ym Mis Ionawr 2017 penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo newidiadau i Bolisi Codi Tal am Wasanaethau Gofal Oedolion Cyngor Gwynedd. Roedd un o'r newidiadau hyn yn caniatáu i'r Cyngor godi tâl ar bawb sydd yn derbyn pecyn sylfaenol Teleofal.

Yn fuan wedi hynny casglwyd nad oedd y trefniadau oedd mewn lle yn addas i bwrpas, a bod angen ail strwythuro'r trefniadau gweithredol gan hefyd fuddsoddi mewn swyddi ychwanegol os am gynnal gwasanaeth cynaliadwy sydd o safon i'r dyfodol.

Mae'r gwaith yma bellach wedi ei gwblhau ac mi rydym erbyn hyn mewn llawer gwell sefyllfa i bwysu a mesur yr hyn gellir ei ystyried yn dâl rhesymol a theg i'w dalu, ond sydd hefyd yn cyfarch yr angen i'r Cyngor dalu am gostau cynnal y gwasanaeth.

I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Rhion Glyn, Uwch Reolwr Busnes (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Asesiad gwreiddiol wedi ei wneud yn Ionawr 2017 ar newidiadau i'r Polisi Codi Tal.

Yr asesiad dan sylw yw'r fersiwn cyntaf sy'n asesu yn benodol effaith cynyddu'r tal wythnosol am becyn sylfaenol Teleofal.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Defnyddwyr Gwasanaeth
Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaeth
Gofalwyr
Timau Gwaith Cymdeithasol
Aelodau Etholedig

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Rhwng y 12fed o Dachwedd a'r 21ain o Ragfyr 2018 anfonwyd llythyr a phhecyn gwybodaeth at bawb oedd yn derbyn Pecyn Sylfaenol Teleofal. Eglurwyd ein bod fel Cyngor erbyn hyn mewn sefyllfa i weithredu ar benderfyniad y Cabinet yn Ionawr 2017 a'n bod felly yn cysylltu er mwyn casglu eu barn ar gynyddu'r swm wythnosol. Nodwyd yn y llythyr ein bod yn ystyried cynyddu'r swm i hyd at £4.50 yr wythnos.

Sicrhawyd y cynnig o gefnogaeth eiriolaeth i'r rhai oedd yn dymuno. Cynigwyd hefyd y wybodaeth ar ffurf hawdd i ddarllen yn ôl yr angen.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Yn Ionawr 2017 paratowyd asesiad cydraddoldeb oedd yn cynnwys gwybodaeth am ganlyniad yr ymgysylltu wnaethpwyd yn gyffredinol ar y Polisi Codi Tal, a'r penderfyniad i codi tal wythnosol ar bawb oedd a phhecyn sylfaenol Teleofal.

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=2009&ver=4&>

Yn benodol felly o ran casglu barn unigolion ar gynyddu'r tal wythnosol, anfonwyd lythyr a phhecyn gwybodaeth at bawb oedd yn defnyddio'r gwasanaeth (1695 o drigolion) ym mis Tachwedd 2018. Cafwyd cyfanswm o 361 o ymatebion a derbyniwyd y rheini dros y ffon neu ar ffurf ffurflen ymateb.

O'r 361 roedd 183 o'r ymatebion a gafwyd o natur positif megis nodi pa mor werthfawr oedd y gwasanaeth iddynt, neu nodi eu bod yn hapus i dalu'r swm dan sylw. Mewn cymhariaeth wedyn, cafwyd cyfanswm o 109 o sylwadau negyddol gyda 66 o'r sylwadau rheini yn nodi fod y swm o £4.50 yr wythnos yn ddrud neu'n ormod o gynnydd. Roedd rhai o'r farn hefyd na ddylid codi dim am y gwasanaeth. Cysylltodd 62 o drigolion er mwyn gadael i ni wybod nad ydynt wir yn defnyddio'r gwasanaeth neu ddim ei angen mwyach.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Deddf:

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	negyddol	Mae ystadegau yn dangos fod rhai pobl o leiafrif ethnig yn fwy tebygol o fod yn dlawd e.e. ffoaduriaid neu bobl Sipsi / Sipsi Roma. Mae hynny'n golygu y gall cynyddu ffi fel hyn gael effaith arnynt.
Yr iaith Gymraeg	dim	Byddwn yn dilyn polisi iaith y Cyngor
Anabledd	negyddol	Mae ystadegau yn dangos fod pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn dlawd na theuluoedd eraill. Mae hynny hyn golygu y gall cynyddu ffi fel hyn gael effaith arnynt e.e. gall olygu y bydd yn anoddach iddynt fynd allan i gymdeithasu.
Rhyw	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Oedran	negyddol	Cyfran sylweddol o ddefnyddwyr teleofal yn bobl hyn ac felly yn cael eu heffeithio gan y cynnydd.
Cyfeiriadedd rhywiol	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Ailbennu rhywedd	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a mamolaeth	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Priodas a phartneriaeth sifil	dim	Dim effaith wedi ei adnabod

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Dim effaith wedi ei adnabod
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Nac ydi	Dim effaith wedi ei adnabod
Meithrin perthnasau da	Nac ydi	Dim effaith wedi ei adnabod

* I'w ddileu yn ôl yr angen

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nac ydi

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Rydym wedi adnabod effaith negyddol o ran y ffaith y bydd y gwasanaeth yn costio mwy i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Bydd hyn yn effeithio rhai carfanau fwy na'i gilydd.

Mae camau i liniau'r effaith hwn yn cael ei nodi isod.

O ganlyniad i'r camau lliniaru sydd mewn lle nid ydym yn gweld y bydd y newid hwn yn cael effaith negyddol sylweddol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

--	--

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Er bod gofyn i bawb sydd yn derbyn y gwasanaeth dalu'r tâl safonol wythnosol, dylid egluro'r sefyllfaoedd a'r eithriadau canlynol.

- Bydd gofyn i bawb sydd yn derbyn Gwasanaethau Dibreswyl (e.e. Gofal Cartref, Taliadau Uniongyrchol) dalu'n ychwanegol am eu gwasanaeth Teleofal. Fodd bynnag, os bydd yr unigolyn yn gofyn am brawf modd er mwyn pennu faint fydd yn rhaid iddynt dalu am eu gwasanaeth dibreswyl, fe fydd y tâl am y Gwasanaeth Teleofal yn cael ei ystyried wedyn fel gwariant hanfodol. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw wariant ar Deleofal yn cael ei ychwanegu at y swm wythnosol o arian sydd yn cael ei ganiatáu i'w gadw cyn i'r unigolyn orfod dechrau talu am o ofal Dibreswyl. Gall hyn olygu fod yr unigolyn wedyn yn cyfrannu llai am eu gofal Dibreswyl.
- Os yw'r unigolyn yn barod wedi derbyn prawf modd a'r canlyniad yn golygu nad oes angen iddynt dalu am eu gwasanaethau, fel rhan o'r penderfyniad hwn rydym yn argymhell na fyddai'n addas chwaith i godi tâl arnynt chwaith am y gwasanaeth Teleofal. Wedi dweud hyn, os yw canlyniad prawf modd yr unigolyn yn newid i'r dyfodol gallai fod yn ofynnol iddynt wedyn fod yn talu am y gwasanaeth Teleofal.

Rydym o'r farn fod y sefyllfaoedd a'r eithriadau sydd wedi eu hegluro uchod yn lliniaru effaith ar ein trigolion fwyaf bregus. Ond o ran yr unigolion hynny sy'n bryderus am y cynnydd ac sydd ddim yn derbyn gwasanaethau di breswyl, a ddim felly'n gymwys am brawf modd, byddwn yn edrych i weld beth fyddai'r ffordd orau iddynt gael cefnogaeth i drafod ac ystyried eu sefyllfaoedd. Wrth hysbysu pawb o'r penderfyniad terfynol byddwn fel cam cychwynnol yn annog unrhyw un sy'n ystyried rhoi gorau i'r gwasanaeth o ganlyniad i'r gost gysylltu â'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i drafod eu sefyllfa.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Ddim yn berthnasol

5) **Monitro**

5.1 **Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Yn dilyn gweithredu'r penderfyniad hwn bydd yr Adran yn adolygu costau rhedeg y gwasanaeth yn flynyddol, gan ychwanegu chwyddiant blynyddol i'r swm o £4.50 os y canfyddir fod angen hynny er mwyn parhau i gynnal y gwasanaeth ar sail cost niwtral.